# PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION, 16.10.14

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Peredur Jenkins (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr, Dyfed Edwards, Trevor Edwards, Jean Forsyth, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Siân Gwenllïan, Jason Humphreys, Eric M. Jones, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, R.H. Wyn Williams a Gareth Thomas (Aelod Cabinet Addysg).

**Hefyd yn Bresennol:** Alwyn Evans-Jones (Pennaeth Adnoddau Dynol), Geraint Owen (Uwch Reolwr Adnoddau Dynol), Dilwyn O Williams (Prif Weithredwr), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**1. CROESO AC YMDDIHEURIADAU**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Ychwanegodd bod yr Is Gadeirydd ac yntau wedi cytuno gwahodd y Cynghorydd Gareth Thomas (Aelod Cabinet Addysg) i'r cyfarfod fel sylwebydd gan mai Pennaeth Addysg oedd yn cael ei benodi.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Stephen Churchman, Brian Jones a Liz Saville Roberts.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma'n berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud ag unigolion penodol a bod gan yr unigolion hynny hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad, mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig ac yn gorbwyso unrhyw fudd cyhoeddus o'i ddatgelu.**

**5. CYFWELD YMGEISWYR AR GYFER SWYDD PENNAETH ADDYSG**

Cyfwelwyd tri ymgeisydd a oedd ar y rhestr fer ar gyfer y swydd.

Gwahoddwyd Mr Arwyn Reynolds, Ymgynghorydd annibynnol o gwmni PCS Associates i gyflwyno sylwadau o'r Ganolfan Asesu a gynhaliwyd 07.10.14. Derbyniwyd crynodeb manwl o berfformiadau'r tri ymgeisydd.

Diolchwyd i Mr Reynolds am ei sylwadau.

Cynigiwyd ac eiliwyd bod y swydd yn cael ei chynnig i Mr Arwyn Thomas ynghyd a'r uchafswm atodiad marchnad (yn unol â phenderfyniad y Cyngor 9.10.14)

Cafwyd trafodaeth ar gyflwyniadau'r  ymgeiswyr ac ystyriwyd y priodoldeb o gynnig atodiad y farchnad i'r ymgeisydd oedd ar y brig. Yn wyneb y rhesymau a amlygwyd yn y cyfarfod cytunwyd y dylid gwneud hynny.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL I BENODI MR ARWYN THOMAS I'R SWYDD PENNAETH ADDYSG.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00am a daeth i ben am 1:15pm